**PWYLLGOR: CYFLE CYFARTAL** **EOC-05-01 (p3)**

| |
|---|
| **Dyddiad: 13 Mehefin 2001** |
| **Lleoliad:Ystafell Pwyllgor 3** |
| **Teitl: Data Cydraddoldeb y Cynulliad Cenedlaethol** |

## Diben

1. Cynigiodd y Pwyllgor (17 Ionawr 2001, EOC-01-01(min), eitem 5) y dylai'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol (SD) nodi pa wybodaeth a oedd ar gael yn fewnol ac oddi wrth y cyrff cydraddoldeb.

## Cefndir

2. Cyflwynwyd cynllun gweithredu drafft rhaglen EQUAL i'r Pwyllgor ar 17 Ionawr. Tanlinellodd bylchau yn y data yn y cynllun ddiffygion mewn gwybodaeth yn y maes.

## Crynodeb

3. Mae SD wrthi'n paratoi Bwletin Ystadegol sy'n archwilio ffynonellau data ac ymchwil gysylltiedig ac mae wedi nodi meysydd datblygu ym maes amrywiaeth. Mae'r papur hwn yn crynhoi'r Bwletin arfaethedig.

Mae cynllun strategol y Cynulliad *Gwell Cymru* yn diffinio tair thema o bwys i ddylanwadu ar y ffordd y mae'n datblygu ei bolisïau, ei flaenoriaethau cyllidebol a'i raglenni dros y blynyddoedd i ddod. Un o'r themâu hyn yw cyfle cyfartal – a diffinnir hyn mewn Gwell Cymru fel: '*hyrwyddo diwylliant lle rhoddir gwerth ar amrywiaeth a lle mae cyfle cyfartal ar waith.*

Maes eang yw cyfle cyfartal, neu amrywiaeth. Mae'n ymdrin ag anghydraddoldebau ym meysydd gender, hil, anabledd, crefydd, oedran, ac iechyd. Mae'r Bwletin yn ymdrin â phob un o'r meysydd hyn yn eu tro ac yn archwilio'r data sydd ar gael a'r ymchwil ddiweddar a wnaed yn y maes hwn a meysydd eraill. Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar anghydraddoldeb cyfle mewn tri phrif faes – sef gender, hil ac anabledd.

## Ffeithiau Cymru

4.
***Gender***
*menywod mewn addysg a hyfforddiant:*
- ym mlwyddyn olaf addysg orfodol, mae 55 y cant o ferched a 43 y cant o fechgyn yn ennill pum neu ragor o lwyddiannnau TGAU – graddau A*-C
- yn 17-19 oed, mae 30 y cant o ferched a 22 y cant o fechgyn yn ennill dau neu ragor o lwyddiannau TAG Safon Uwch

*menywod yn y gwaith:*
- mae 65 y cant o fenywod o oedran gwaith a 74 y cant o ddynion oedran gwaith mewn cyflogaeth
- dim ond 7 y cant o gyflogeion o ddynion o oedran gwaith sy'n gweithio yn rhan-amser, o'i gymharu â 47 y cant o gyflogeion o ferched

*cyfuno gwaith a bywyd y teulu:*

- mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer menywod a dynion heb blant dibynnol ill dau yn rhyw ddwy ran o dair, er hynny mae 87 y cant o ddynion sydd â phlant dibynnol mewn cyflogaeth o'i gymharu â 63 y cant o fenywod sydd â phlant dibynnol
- menywod y mae eu plentyn ieuaf o dan 5 oed sydd â'r gyfradd gyflogaeth isaf o 51 y cant, o'i gymharu â 70 y cant yn achos benywod y mae eu plant dibynnol yn 5 oed neu'n hŷn

*incwm menywod:*
- mae cyflogeion o fenwyod sy'n gweithio yn amser-llawn yn ennill ar gyfartaledd 87 y cant o enillion oriau cyfartalog cyflogeion amser-llawn o ddynion
- mae incwm unigol crynswth menywod, gan gynnwys incwm o gyflogaeth, pensiynau, budd-daliadau, buddsoddiadau, etc ar gyfartaledd yn 58 y cant yn unig o incwm dynion

***Hil***
*poblogaeth amrywiol*
- mae tua 1.5 y cant o boblogaeth Cymru o leiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn. O'r rhain, mae dros dri chwarter yn bobl o o Dde Asia, Tseina ac yn bobl o dras gymysg
- mae amrywiadau rhanbarthol yn amrywio o ryw 6 y cant yng Nghaerdydd i lai na ½ y cant ym Mhowys

*anghydraddoldebau yn y gweithle:*
- mae astudiaeth gan Brifysgol Rhydychen yn dangos amrywiaeth mawr ym mhrofiad y rhai ar incwm isel yn ôl eu grŵp ethnig

***Anabledd***
*corfforol:*
- dywedodd Arolwg Iechyd Cymru 1998 i 18% o oedolion ddweud bod eu hiechyd yn amharu ar eu gallu i gerdded canllath
- mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yn amcangyfrif bod un person ym mhob trigain o boblogaeth y DU yn ddall neu fod ganddynt olwg rannol. Mae hyn yn gydradd â rhyw 50,000 o bobl yng Nghymru. Ymhlith y rhai dros 75 oed, mae hyn yn codi i un ym mhob chwech

*meddyliol:*
- dywedodd Arolwg Iechyd Cymru 1998 i 14% o oedolion ddweud bod ganddynt ryw fath o anhwylder meddyliol neu nerfus (yn para tri mis neu ragor)
- ar 31 Mawrth 2000 yr oedd 2,166 o bobl yn preswylio mewn ysbytai NHS ac unedau i bobl sydd â salwch meddwl. O'r rhain yr oedd 13 yn llai na 16 oed.
- mae 26 y cant o fenywod anabl a 31 y cant o ddynion anabl o oedran gwaith mewn cyflogaeth

**Yr hyn y mae'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn ei gynhyrchu**

5. Mae SD yn cyhoeddi cyfrolau blynyddol sy'n ymdrin ag ystod o ystadegau a gesglir gan y Cynulliad neu gan asiantaethau eraill ac adrannau o'r llywodraeth. Rhestrir y crynoadau mawr a gyhoeddir yn flynyddol isod gydag enghraifft o'r data a geir ynddynt:

*Crynhoad o Ystadegau Cymru* – enillion dynion a menywod, cyraeddiadau arholiadau bechgyn a merched. Data ar lefel Cymru gyfan.

*Crynhoad o Ystadegau Ardaloedd Lleol Cymru* – marwolaethau yn y crud, trosedd a gofnodir, amddifadedd. Data ar lefel leol, lefel yr awdurdod lleol fel rheol.

*Ystadegau Iechyd Cymru* – ysmygu ymhlith pobl ifanc, cyfraddau cenhedlu ymhlith arddegwyr. Data ar lefel awdurdod lleol fel rheol.

Lle bynnag y bo modd, caiff yr ystadegau eu dadansoddi yn ôl gender. Trefnir bod y fersiwn ddiweddaraf o'r Crynoadau ar gael ar wefan y Cynulliad yn:

http://www.wales.gov.uk/keypubstatisticsforwales/index.

Yn ychwanegol at y rhain, mae yna nifer o gyhoeddiadau ad-hoc a gynhyrchir gan SD.

*Ystadegau Ardaloedd Etholaethau y Cynulliad* (a gyhoeddwyd ym 1998), yn cyflwyno set ragarweiniol o dablau ar gyfer etholaethau a rhanbarthau etholiadol Cymru.

*Mapio Dieithrwch Cymdeithasol yng Nghymru* (2000) – yn cynnwys 50 o ddangosyddion yn gysylltiedig â dieithrwch ac yn mapio eu crynodiad ledled Cymru.

Mae *Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru* (2000) yn dangos lefelau o amddifadedd yng Nghymru ar y lefel leol.

Mae *Arolwg Iechyd Cymru* (1998) yn casglu gwybodaeth ar drawsdoriad o'r boblogaeth sydd ag amrediad o afiechydon ac anableddau ac ar grwpiau tebyg o bobl iach er mwyn darparu darlun o iechyd pobl yng Nghymru a'r ffordd y defnyddir yr NHS.

Mae *Ffocws Ystadegol ar Gymru* (1999) yn cynnig cyflwyniad disgrifiadol i ystadegau swyddogol allweddol. Mae'r cyhoeddiad yn amrywio yn eang dros lawer o agweddau ar fywyd yng Nghymru.

Mae *Ffocws Ystadegol ar Gymru: Menywod* (1998) yn cyflwyno darlun o fywyd menywod yng Nghymru. Ceir cymariaethau â dynion ac â'r sefyllfa 10 mlynedd yn ôl.

Darparodd *Ffocws Ystadegol ar Gymru: y Cymoedd* (1999) ystod o ystadegau sy'n ymwneud ag ardal Rhaglen y Cymoedd.

Mae SD hefyd yn cynhyrchu bwletinau ystadegol ad-hoc ar amrediad o bynciau sy'n cael eu cylchredeg yn eang ac sydd ar gael drwy wneud cais i'r Gyfarwyddiaeth. Yn ogystal, cynhyrchir ystadegau penawdau cryno amserol ar ryngrwyd y swyddfa ac ar y we fyd-eang.

**Datblygiadau yn y sylfaen ystadegol**

6.
*Gwella'r sampl yn yr Arolwg Gweithlu (LFS)* – o Fawrth 2001, mae maint y sampl ar gyfer yr LFS yng Nghymru yn cael ei ehangu o ryw 4,800 o aelwydydd y flwyddyn i ryw 18,000. Nid yn unig y bydd y cynnydd ym maint y sampl yn caniatáu i amcangyfrifon mwy dibynadwy gael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru ond fe fydd hefyd yn caniatáu i ddadansoddiad ehangach gael ei wneud ar lefel yr awdurdodau lleol. Yr LFS yw prif ffynhonnell y DU o wybodaeth economaidd a'r farchnad lafur ac mae'n caniatáu dadansoddiad yn ôl grŵp ethnig, anabledd a gender ar draws ystod o newidynnau.

*Cofnodi gwybodaeth gan ysgolion ar grŵp ethnig plentyn* – mae'r Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi Canllawiau newydd i ysgolion ar gasglu a chofnodi gwybodaeth am grŵp ethnig disgyblion. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth well ar lefel ysgol a lefel leol yn y broses o fonitro cynnydd disgyblion.

*Anabledd* – mae gan lawer o arolygon (gan gynnwys yr Arolwg Gweithlu ac Arolwg Iechyd Cymru) gwestiynau ynghylch anabledd a phroblemau iechyd tymor hir. Mewn ymdrech i gyfuno data o'r ffynonellau hyn i gyflwyno proffil ystadegol cynhwysfawr o'r rhai sydd ag anableddau yng Nghymru, gan gynnwys eu statws yn y farchnad lafur, tai ac amodau cymdeithasol cyffredinol,

mae'r Cynulliad yn bwriadu cyhoeddi 'Ffocws ystadegol ar bobl ag anableddau' yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Y Bwletin Ystadegol**

7.
Mae'r Bwletin drafft yn archwilio'r prif ffynonellau data a rhywfaint o'r ymchwil sylweddol a gyflawnir ym meysydd anghydryddoldebau yn y canlynol:

- **Addysg a Hyfforddiant**
- **Gwaith:**
    - Cyflog Cyfartal
    - Menywod mewn uwch-rheolaeth
- **Ethnigrwydd**
    - Aflonyddu hiliol
    - Mudwyr a ffoaduriaid
    - Gwahaniaethu crefyddol
- **Menywod mewn gwleidyddiaeth**
- **Iechyd**
- **Anabledd**
- **Iaith**

Atgynhyrchir darnau o adroddiadau cyhoeddedig neu o wybodaeth a gyhoeddwyd ar y rhyngrwyd er mwyn rhoi gorolwg o'r gwaith sydd wedi'i wneud ym mhob un o'r meysydd hyn. Lle bynnag y bo modd, darperir cysylltiadau hyper-testun ar gyfer y cyrff a'r adroddiadau o dan sylw. Trefnir bod y Bwletin Ystadegol terfynol ar gael trwy wneud cais ac fe'i hatgynhyrchir yn llawn ar wefan y Cynulliad.

**Cydymffurfiad**

8. Cyflwynir y papur i'r Pwyllgor er gwybodaeth. Nid oes unrhyw faterion cydymffurfiad.

**Gweithredu**

9. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r Bwletin arfaethedig.